

Adroddiad Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg

1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2018



Grŵp
**Llandrillo
Menai**

Cynnwys

1.	Rhagair	2
2.	Trefniadau Goruchwyllo Cydymffurfedd	2
3.	Aseiad o Gydymffurfedd	3
3.1.	Ansawdd gwasanaethau Cymraeg.....	3
3.2.	Penderfyniadau Polisi	5
3.3.	Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Grŵp	5
3.4.	Sgiliau Cymraeg Cyflogeion.....	7
3.5.	Hyfforddiant Cymraeg i Gyflogeion	8
3.6.	Hyfforddiant ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion	8
3.7.	Recriwtio i swyddi gwag a newydd.....	8
3.8.	Cwynion	10
3.9.	Trefniadau goruchwyllo cydymffurfedd	10

Adroddiad Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg

1. RHAGAIR

1.1. Pwrpas yr adroddiad	<p>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Grŵp i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.</p> <p>Dyma gyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) ar ei weithrediad o'r Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r safonau wedi eu rhannu'n bedwar maes:</p> <ul style="list-style-type: none">- Cyflenwi gwasanaethau- Llunio polisi- Gweithredu- Cadw cofnodion <p>Mae'r adroddiad yn amlinellu'r modd y bu i'r Grŵp gydymffurfio â'r safonau o fewn y meysydd uchod o 1 Ebrill hyd at 31 Gorffennaf 2018.</p> <p>Yn sgil derbyn ein hysbysiad cydymffurfio ar gyfer y Safonau Iaith Gymraeg, datblygwyd Polisi Iaith Gymraeg o'r newydd sy'n adeiladu ar y gwaith sy'n mynd rhagddi eisoes o fewn y Grŵp (dan yr hen Gynllun Iaith Gymraeg).</p> <p>Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hyrwyddo defnydd a thwf yr iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.</p>
1.2. Dyddiad cyhoeddi	31 Ionawr 2019
1.3. Manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno ymholiadau	SafonauCymraeg@gllm.ac.uk

2. TREFNIADAU GORUCHWYLIO CYDYMFFURFEDD

2.1. Manylion yr uwch-swyddog cyfrifol	Angharad Lloyd-Williams, Pennaeth Datblygu Dwyieithrwydd ac Adnoddau Dysgu
2.2. Trefniadau dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol	Mae Panel Iaith y Grŵp yn goruchwyllo'r Polisi Iaith Gymraeg. Ystyrir bod pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau Iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Grŵp.

3. ASESAD O GYDYMFFURFEDD

3.1. Ansawdd gwasanaethau Cymraeg

Cyflwynir isod fanylion ar ansawdd gwasanaethau Cymraeg Grŵp Llandrillo Menai. Yn benodol, sut mae'r Grŵp yn bodloni Safonau Cyflenwi Gwasanaethau o dan y Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r Grŵp yn gweithredu 87 o safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Adroddir ar y safonau hynny sydd wedi cael eu hamlygu fel y rhai oedd yn peri rhai heriau neu nad oeddynt yn weithredol eisoes (dan Cynllun Iaith Gymraeg y Grŵp) a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r safonau penodol hynny.

Grŵp Safon	Rhif	Sefyllfa cyn 1 Ebrill 2018	Gweithred oedd ei angen	Sefyllfa bresennol
Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff	7	Nid oedd gan y Grŵp ddatganiadau o'r fath mewn gohebiaeth na chyhoeddiadau sy'n gwahodd unigolion i ohebu efo'r coleg.	Sefydlu pa bryd mae unrhyw ohebiaeth neu gyhoeddiadau yn gwahodd unigolion i ohebu efo'r coleg. Creu canllaw a geiriad i'w gynnwys mewn gohebiaeth a chyhoeddiadau.	Mae systemau wedi cael eu sefydlu sy'n golygu bod unrhyw ohebiaeth neu gyhoeddiadau sy'n gwahodd unigolion i ohebu efo'r coleg yn rhoi gwybod iddynt ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fel sy'n arferol gyda'r holl safonau, bydd y sefyllfa hyn angen cael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau nad oes gohebiaeth yn cael ei anfon heb wahoddiad i ohebu efo'r Grŵp yn Gymraeg.
Safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff	8, 9, 11, 16, 17, 19, 20, 21	Nid oedd staff sy'n ateb prif linell ffôn bob tro'n cyfarch yn Gymraeg. At hynny, nid oedd pob aelod o staff sy'n ateb prif linell ffôn bob tro'n gallu delio â'r alwad ffôn yn Gymraeg. Nid oedd gennym drefn ar gyfer gofyn i unigolion allanol o'u dewis iaith wrth wneud galwadau ffôn a chadw cofnod o'r dewis iaith hwnnw.	Sicrhau bod unrhyw aelod o staff sy'n ateb prif linell ffôn yn cyfarch yn ddwyieithog. Sicrhau bod aelodau staff sy'n ateb prif linell ffôn (ac sydd ddim yn gallu delio â'r alwad yn Gymraeg) yn gallu trosglwyddo'r alwad yn syth i rywun sydd yn gallu delio â'r alwad yn Gymraeg. Asesu lle roedd angen cynnig a chadw cofnod o ddewis iaith ar gyfer derbyn galwadau ffôn gan y coleg. Sefydlu trefn ar gyfer cadw cofnod o ddewis iaith ar gyfer derbyn galwadau ffôn.	Canllawiau wedi eu rhannu (yn ogystal â hyfforddiant) i aelodau staff sy'n ateb prif linell ffôn. Yn dilyn asesiad, nodwyd bod angen sicrhau bod yr adran Busnes@ yn gofyn am ddewis iaith derbyn galwadau ffôn a'n cadw cofnod o'r dewis hwnnw. Mae'r drefn bellach wedi cael ei sefydlu. Mae'r Grŵp yn cadw cofnod o ddewis iaith ei ddsygwyr drwy system eDrac (mewnrywdd dysgwyr).
Safonau ynghylch	24, 24A,	Nid oedd gennym system ar gyfer gofyn os oedd	Trefnu bod holl reolwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r	Mae holl reolwyr y Grŵp wedi derbyn arweiniad ar y gofynion

cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i fyfyrwyr o fewn carfan benodol / Cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig	26, 27, 27A, 27D	unigolion (allanol) sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn dymuno cyfrannu i'r cyfarfodydd hynny yn Gymraeg.	gofynion a chyfathrebu hynny i'w staff. Cynnig sesiynau hyfforddiant i staff yn ôl y gofyn. Rhannu gwybodaeth a chanllawiau perthnasol drwy Borth y Grŵp (mewnwyd staff).	ieithyddol wrth wahodd unigolion i gyfarfodydd. Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar draws y sefydliad ac mae'r holl ganllawiau (gan gynnwys set o gwestiynau cyffredin) ar gael i staff ar Borth y Grŵp.
Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff	68, 69, 69A, 71	Roedd holl wasanaethau derbynfeydd safleoedd Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor ar gael yn ddwyieithog. Nid oedd holl staff derbynfeydd safleoedd Coleg Llandrillo yn ddwyieithog.	Hyfforddi staff derbynfeydd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ar safleoedd Coleg Llandrillo.	Mae hyfforddiant ar ben ffordd (safonau 69 a 69A ddim yn weithredol tan 1 Hydref 2019).
Safonau ynghylch cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg	90	Nid oedd gennym drefn cyson ar gyfer rhoi gwybod i ddysgwyr fod ganddynt yr hawl i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg.	Sicrhau bod datganiad mewn llawlyfrau cwrs a bod yr wybodaeth yn cael ei rannu â'r dysgwyr fel rhan o'r cyfnod cynefino.	Ymgyrch 'hawliau' wedi ei gyflwyno ar draws y coleg. Trefn wedi ei sefydlu fel rhan o'r cyfnod cynefino.
Safonau ynghylch llety myfyrwyr	92, 92A	Nid oedd gennym drefn ar gyfer dyrannu adeilad (neu ran o adeilad) yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.	Adolygu'r ffurflen gais am lety. Adolygu'r drefn ar gyfer dewis lleoliad mewn llety (ar safle Glynllifon) i ddysgwyr gan ddyrannu rhan o'r adeilad yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.	Mae gan safle Glynllifon ethos ac awyrgylch Cymreig. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n dewis aros yn y llety yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae adran o fewn y llety wedi cael ei ddyrannu'n benodol ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n datgan dymuniad i fod mewn llety sydd wedi ei gadw ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
Safon ynghylch dyrannu tiwtor personol	93	Nid oedd y Grŵp yn gofyn i ddysgwyr os oeddynt yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.	Asesu'r drefn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-19 er mwyn gallu dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg pan mae dysgwyr yn dymuno hynny.	Mae tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg yn cael ei ddyrannu i fwyafrif helaeth ein dysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg. Gall y dysgwyr hynny sy'n weddill, sy'n gofyn am diwtor personol sy'n siarad Cymraeg, dderbyn y gefnogaeth hon trwy drefniadau amgen. Bydd ein system AD newydd yn ein galluogi i asesu ein gallu i gwrdd â'r safon hon yn llawn.

3.2. Penderfyniadau Polisi

Cyflwynwyd 12 o bolisiau i fwrdd y gorfforaeth y Grŵp i'w hystyried ar gyfer newidiadau neu fel polisiau newydd yn ystod cyfnod yr adroddiad (01.04.2018 – 31.07.2018). Cynhaliwyd asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg wrth ystyried unrhyw newidiadau i bolisiau neu wrth gyflwyno polisi newydd.

Mae'r broses ar gyfer cynnal asesiad effaith wedi cael ei adolygu sy'n golygu bod Panel Iaith y Grŵp bellach yn gyfrifol am gymeradwyo cynnwys pob asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw bolisi newydd (neu ddiweddariad i bolisi). Gwelwyd bod angen tynhau'r drefn ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi fel bod Pennaeth Datblygu Dwyieithrwydd ac Adnoddau Dysgu'r Grŵp yn rhoi cyngor i unigolion (a'n cychwyn ar yr asesiad effaith) ar ddechrau'r broses o ysgrifennu'r (neu ddiweddar) polisi.

Amlinellir isod y safonau hynny oedd yn gofyn i'r Grŵp weithredu ar elfennau nad oeddynt yn rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol a'r camau a gymerwyd i fod yn bodloni'r safonau hynny:

Grŵp Safon	Rhif	Sefyllfa cyn 1 Ebrill 2018	Gweithred oedd ei angen	Sefyllfa bresennol
Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg	100	Nid oeddem yn amlinellu'n benodol y byddai'r broses dyfarnu grantiau neu fwrsariaeth yn cynnwys ystyriaeth o'r effaith ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.	Addasu geiriad ar y polisi ffioedd dysgu a chynnwys geiriad ar wefan y Grŵp (i'w weithredu fel rhan o'r polisi).	Gwefan y Grŵp wedi cael ei addasu. Polisi'r Grŵp yn cynnwys manylion am fwrsariaeth benodol sydd ag amod i gyflawni gwaith yn Gymraeg.
	104	Mae'r Grŵp yn gweithredu Grŵp Cwricwlwm Strategol sy'n goruchwyllo unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm (neu gyrsiau). Roedd ystyriaeth i'r effaith ar y Gymraeg yn cael ei drafod fel rhan o waith y grŵp.	Cryfhau'r broses drwy ofyn bod rheolwyr maes rhaglen yn llenwi adran benodol o'r ffurflen (cais ar gyfer addasu neu newid unrhyw gwrs) yn cyfiawnhau nad yw eu penderfyniad yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg (neu os oes effeithiau negyddol posib, eglurhad o'r weithred er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol hynny).	Ffurflen gwneud cais i addasu'r cwricwlwm yn cynnwys adran benodol ar effeithiau negyddol neu gadarnhaol posib ar y Gymraeg (i'w ystyried gan y Grŵp Cwricwlwm Strategol).

3.3. Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Grŵp

Cyflwynir isod fanylion ar y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol Grŵp Llandrillo Menai. Yn benodol, sut mae'r Grŵp yn bodloni Safonau Gweithredu o dan y Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r Grŵp yn gweithredu 48 o Safonau Gweithredu.

Adroddir ar y safonau hynny sydd wedi cael eu hamlygu fel y rhai oedd yn peri rhai heriau neu nad oeddynt yn weithredol eisoes (dan Cynllun Iaith Gymraeg y Grŵp) a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r safonau penodol hynny.

Grŵp Safon	Rhif	Sefyllfa cyn 1 Ebrill 2018	Gweithred oedd ei angen	Sefyllfa bresennol
Safonau ynghylch defnyddio'r	105, 109, 140,	Roedd y Grŵp yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg oedd yn trafod y defnydd o'r	Creu polisi iaith Gymraeg newydd sy'n gweithredu gofynion y Safonau Iaith	Mae'r Grŵp bellach yn gweithredu ei Bolisi Iaith Gymraeg newydd (sydd ar gael

<p>Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff</p>	<p>142, 143, 146, 148,</p>	<p>Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y sefydliad. Fodd bynnag, nid oedd gennym bolisi penodol ar gyfer y dibenion hynny.</p> <p>Nid oedd gennym broses ar gyfer gofyn i gyflogai os oedden nhw'n dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg (roedd hyn yn broses oedd yn digwydd ar hap yn ddibynnol ar sgiliau ieithyddol y rheolwr llinell).</p> <p>Roedd y Grŵp yn cynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i'w staff dan ei Gynllun Iaith Gymraeg blaenorol (drwy Canolfan Sgiliaith). Fodd bynnag, nid oeddem yn cynnig hyfforddiant ar ein dyletswyddau o fewn y Safonau Iaith Gymraeg.</p>	<p>Gymraeg ar weinyddiaeth fewnol y Grŵp.</p> <p>Creu adran ar Borth y Grŵp (mewnrwyd staff) yn benodol i staff dderbyn gwybodaeth pellach am y Safonau Iaith Gymraeg ynghyd â chanllawiau gweithredu mewnol.</p> <p>Addasu geiriad rhai dogfennau mewnol er mwyn sicrhau bod staff yn gallu nodi eu dymuniad i dderbyn dogfennau sy'n amlinellu eu hanghenion perfformiad yn Gymraeg.</p> <p>Cynnig hyfforddiant i staff ar ein dyletswyddau o fewn y Safonau Iaith Gymraeg.</p>	<p>ar wefan y Grŵp ac ar fewnrwyd staff y coleg). Mae'r polisi yn ymdrin â gweinyddiaeth fewnol y Grŵp a'n amlinellu dyletswyddau a hawliau staff o dan y Safonau Iaith Gymraeg.</p> <p>Mae adran ar y Safonau Iaith Gymraeg ar gael i holl staff drwy'r Porth. Mae amrywiaeth o ganllawiau ar gael i staff ar y Porth gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheoliadau Safonau'r Gymraeg • Cwestiynau cyffredin • Ymadroddion defnyddiol • Templed ar gyfer llofnod a neges allan o'r swyddfa dwyieithog • Canllaw i reolwyr • Polisi iaith Gymraeg y Grŵp • Map dysgwyr a staff (sy'n cyfeirio dysgwyr a staff at y safonau perthnasol gan ddibynnu ar y mater dan sylw) <p>Mae hyfforddiant ar ein dyletswydd o fewn y Safonau Iaith Gymraeg ar gael i staff.</p>
--	----------------------------	---	---	---

3.4. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Mae'r data canlynol yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau fesul gwasanaeth. Mae'r Grŵp wedi gweithredu system newydd drwy'r adran adnoddau dynol ar gyfer casglu'r data isod a'r bwriad yw y bydd y data'n gyflawn (h.y. ni fydd angen y golofn olaf ar bob un o'r tablau) erbyn cyfnod yr adroddiad blynyddol nesaf.

Coleg Llandrillo	Nifer y staff	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Dim	Dim gwybodaeth sgiliau
Sgiliau deall Cymraeg	452	59	41	153	135	64
Sgiliau siarad Cymraeg		58	38	144	148	
Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig		43	41	116	188	

Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor	Nifer y staff	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Dim	Dim gwybodaeth sgiliau
Sgiliau deall Cymraeg	509	278	36	62	28	105
Sgiliau siarad Cymraeg		274	37	65	26	
Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig		237	54	71	40	

Gwasanaethau Academaidd	Nifer y staff	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Dim	Dim gwybodaeth sgiliau
Sgiliau deall Cymraeg	249	105	19	61	35	29
Sgiliau siarad Cymraeg		102	18	63	37	
Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig		96	19	56	49	

Gwasanaethau Corfforaethol	Nifer y staff	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Dim	Dim gwybodaeth sgiliau
Sgiliau deall Cymraeg	234	69	20	43	62	40
Sgiliau siarad Cymraeg		69	16	45	64	
Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig		60	19	42	73	

Busnes@	Nifer y staff	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Dim	Dim gwybodaeth sgiliau
Sgiliau deall Cymraeg	205	91	29	39	30	16
Sgiliau siarad Cymraeg		90	23	43	33	
Sgiliau Cymraeg ysgrifenedig		84	22	39	44	

3.5. Hyfforddiant Cymraeg i Gyflogeion

Mae'r Grŵp yn darparu gwasanaeth canolog ar gyfer cynnal hyfforddiant mewnol i'w staff yn flynyddol. At hynny, mae adrannau yn gweithredu trefniadau unigol ar gyfer cefnogi staff i fynychu hyfforddiant (neu wrth drefnu hyfforddwy'r allanol i ymweld â'u timau). Mae'r data isod yn cyflwyno data ar gyfer sesiynau hyfforddiant yn y meysydd sy'n cael eu hamlinellu o dan Safon 135 ac sydd wedi ei gasglu'n ganolog drwy'r adran datblygu staff. **Ni gynigwyd hyfforddiant ym meysydd recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu a delio â'r cyhoedd yn fewnol yn ystod cyfnod yr adroddiad.**

Maes Hyfforddiant	Nifer y digwyddiadau	Nifer wedi mynychu sesiynau Cymraeg	Canran o gyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg
Cynefino staff	4	38	84.4%
Iechyd a diogelwch	31	95	29%

3.6. Hyfforddiant ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion

Mae'r tabl isod yn amlinellu nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant sy'n ymwneud â datblygu eu sgiliau iaith neu godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gofynion y Safonau Iaith Gymraeg (dylid nodi ei bod yn arferiad gan y Grŵp i ofyn i reolwyr gynnal sesiynau hyfforddi byr i ddiweddarau staff ar bolisiau a gweithdrefnau newydd fel rhan o gyfarfodydd tîm ac nad ydym wedi cofnodi'r gweithgareddau hynny).

Maes Hyfforddiant	Nifer y staff wedi mynychu
Cymraeg Gwaith – Mynediad	22
Cymraeg Gwaith – Sylfaen	7
Cymraeg Gwaith – Canolradd	5
Cymraeg Gwaith – Uwch	5
Gloywi Iaith	18
Safonau Iaith Gymraeg	31 (reolwyr)
Hyfforddiant Seren Iaith	113

3.7. Recriwtio i swyddi gwag a newydd

Cyflwynir isod data ar gyfer recriwtio i swyddi gwag a newydd ar draws Grŵp Llandrillo Menai yn ystod y flwyddyn academaidd (Awst 2017 - Gorffennaf 2018).

3.7.1.Swyddi Llawn Amser

	Nifer y swyddi hysbysebwyd	Hysbysebwyd: y Gymraeg yn hanfodol	Hysbysebwyd: y Gymraeg yn ddymunol	Nifer y ffurflenni cais derbyniwyd	Nifer y ffurflenni cais gan siaradwyr Cymraeg rhugl	Nifer y ffurflenni cais gan siaradwyr Cymraeg	Nifer y ffurflenni cais gan siaradwyr Cymraeg sylfaenol	Nifer y penodiadau Cymraeg rhugl	Nifer y penodiadau Cymraeg canolradd	Nifer y penodiadau Cymraeg sylfaenol
Coleg Llandrillo	14	2	12	32	12	3	15	3	0	0
Coleg Menai	23	16	7	44	28	5	9	8	0	1
Coleg Meirion Dwyfor	15	15	0	37	32	2	2	13	1	0
Gwasanaethau Academaidd	8	3	5	24	8	4	9	3	1	1
Gwasanaethau Corfforaethol	15	3	12	64	24	8	17	3	3	1
Busnes@	23	4	20	106	31	13	44	3	1	6
Grŵp Llandrillo Menai	98	43	56	307	135	35	96	33	6	9

3.7.2.Swyddi Rhan Amser

	Nifer y swyddi hysbysebwyd	Hysbysebwyd: y Gymraeg yn hanfodol	Hysbysebwyd: y Gymraeg yn ddymunol	Nifer y ffurflenni cais derbyniwyd	Nifer y ffurflenni cais gan siaradwyr Cymraeg rhugl	Nifer y ffurflenni cais gan siaradwyr Cymraeg canolradd	Nifer y ffurflenni cais gan siaradwyr Cymraeg sylfaenol	Nifer y penodiadau Cymraeg rhugl	Nifer y penodiadau Cymraeg canolradd	Nifer y penodiadau Cymraeg sylfaenol
Coleg Llandrillo	41	1	40	92	18	8	47	7	2	12
Coleg Menai	43	30	13	92	54	6	16	22	1	4
Coleg Meirion Dwyfor	37	27	10	35	28	1	4	14	1	2
Gwasanaethau Academaidd	21	8	13	62	22	5	24	9	2	4
Gwasanaethau Corfforaethol	35	3	32	108	38	15	26	10	5	12
Busnes@	10	3	7	22	9	0	7	1	2	0
Grŵp Llandrillo Menai	187	72	115	411	169	35	124	63	13	34

3.8. Cwynion

Nifer cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol drwy broses gwynion y Grŵp:

Adran	Nifer y cwynion
Gwasanaethau i ddysgwyr (recriwtio)	1

Roedd y gŵyn uchod yn ymwneud â'r broses gwneud cais i fynychu cwrs yn y Grŵp a'r honiad bod cais a dderbyniwyd yn Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol. Roedd canlyniad yr ymchwiliad mewnol wedi dangos nad cyfrwng iaith y cais oedd wedi arwain at yr oedi wrth dderbyn cyfathrebiad gan y Grŵp.

3.9. Trefniadau Goruchwyllo Cydymffurfedd

Panel iaith y Grŵp sy'n gyfrifol am fonitro'r Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r panel yn cael ei gadeirio gan Bennaeth Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor a'n cynnwys aelodaeth briodol ar gyfer unrhyw weithrediadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau.